

## Freedom of Information Act 2000 (FOIA)

### Decision notice

**Date:** 16 February 2017

**Public Authority:** Welsh Language Commissioner  
**Address:** Market Chambers  
5-7 St. Mary Street  
Cardiff  
CF10 1AT

#### Decision (including any steps ordered)

---

1. The complainant requested a copy of Cardiff Council's reply to the consultation on the draft Welsh language standards. The Welsh Language Commissioner ('the WLC') refused the request under section 44 of the FOIA. The Commissioner's decision is that the WLC has correctly applied section 44 of the FOIA. The Commissioner does not require any steps to be taken.

#### Request and response

---

2. On 11 December 2015 the complainant wrote to the WLC and requested information in the following terms:  
  
".....gopi o ymateb Cyngor Caerdydd i'ch ymgynghoriadau ar safonau iaith drafft" (...a copy of the reply from Cardiff Council to your consultations on the draft Welsh language standards).
3. The WLC responded on 7 January 2016 and stated that the information requested was exempt under section 44(1)(a) of the FOIA, because disclosure was prohibited by virtue of section 22 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 ('the Measure').

4. The complainant wrote to the WLC on 22 February 2016 and requested an internal review of its decision to withhold the information requested.
5. The WLC provided the outcome of its internal review on 5 May 2016 and upheld its decision that the information requested was exempt under section 44 of the FOIA.

### **Scope of the case**

---

6. The complainant contacted the Commissioner on 26 September 2016 to complain about the way his request for information had been handled.
7. The Commissioner considers the scope of her investigation to be to determine whether the WLC correctly refused the request under section 44(1) of the FOIA.

### **Reasons for decision**

---

#### **Section 44 – prohibitions on disclosure**

8. Section 44(1)(a) provides an exemption from disclosure under the FOIA for information which is prohibited from disclosure under other legislation. In effect, the inclusion of the exemption by the authors of FOIA was designed to protect against the inadvertent release of information that a legislative body had already decided should be kept confidential. A critical point is that section 44 of the FOIA is an absolute exemption, which means that unlike a number of other exemptions in the FOIA it is not subject to the public interest test.
9. The WLC explained that the legislation it considers prohibits disclosure under section 44 of the FOIA is section 22(1) of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 ('the Measure')<sup>1</sup>.
10. Section 22(1) of the Measure prohibits the WLC from releasing information which has been obtained in the exercise of one or more of the WLC's functions, unless that disclosure is authorised by section 22(2) of the Measure.

---

<sup>1</sup> <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted>

11. The WLC advised that the term “obtained in the exercise of any of the Commissioner’s functions” is not defined in the Measure but it is deemed to mean that section 22(1) is only applicable to information received by the WLC, rather than information produced internally.
12. Sections 61 to 63 of the Measure authorise the WLC to hold standards investigations into a person or group of persons (subject to specific conditions). The request in this case relates to a standards investigation undertaken by the WLC between January and April 2014 on 26 organisations, including Cardiff Council. The withheld information comprises the response from Cardiff Council to the consultation on the Welsh language standards. In light of this, the WLC considers that the information falls within the scope of section 22(1) of the Measure. The WLC is therefore prohibited from disclosing the information unless disclosure is authorised under section 22(2) of the Measure.
13. The WLC has not identified any function within section 22(2) which would permit disclosure of Cardiff Council’s response to the Welsh language standards consultation. The WLC’s position is that disclosure of information under the FOIA is not one of her functions.
14. The complainant considers that the WLC has interpreted section 22(2) of the Measure too narrowly and he considers that the WLC has ‘functions’ imposed on her by the FOIA. He believes, therefore, that the WLC is able to disclose the information requested as disclosure would “be for the purpose of the exercise of any of the Commissioner’s functions” and therefore section 22(2)(a) would allow disclosure.
15. In reaching a decision in this case the Commissioner has taken into account the representations provided by the WLC and the relevant provisions within the Measure. Having inspected the withheld information, the Commissioner is satisfied that it was obtained by the WLC in the exercise of one of her functions, specifically in undertaking standards investigations.
16. The Commissioner has considered the complainant’s argument that the WLC has interpreted section 22(2) of the measure too narrowly and one of the WLC’s functions is to respond to FOIA requests. The Commissioner’s guidance on section 44<sup>2</sup> of the FOIA confirms that, if a public authority is applying section 44(1)(a) by virtue of a statutory bar that refers to its functions, then the functions must be those given to that authority specifically, and not general obligations on all authorities.

---

<sup>2</sup> <https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1186/section-44-prohibitions-on-disclosure.pdf>

17. Some statutory bars contain 'gateways' permitting disclosure under certain conditions. These conditions, in turn, may refer to the authority's functions. The Commissioner's position is that disclosure under FOIA is not a function specifically entrusted to a public authority but rather creates general duties for all public authorities. This point was made clear in relation to gateways in the case of *Slann v the Information Commissioner and the Financial Services Authority (EA/2005/0019, 11 July 2006)*. In this case the Tribunal found that disclosure of information held by the FSA was prohibited under FSMA 2000 section 348, and the information was therefore exempt under FOIA section 44(1)(a). At paragraph 38 the Tribunal said that section 349 did not provide a gateway to disclosure in this case because it agreed with the FSA when it contended that:

"...section 349(5)(a) with its reference to public function is referring to and is directed to functions and powers conferred on the FSA by statute or by statutory instrument other than the FSMA and not legislation such as the 2000 Act [ie FOIA] to which other persons including the FSA are or might be subject..."

18. The Commissioner has considered the gateways which permit disclosure of the requested information in this case. The Commissioner is satisfied that a disclosure in line with responding to an information request under the FOIA is not one of the reasons for disclosure provided for under sub-sections 22(a) to (h) of the Measure.

19. In summary, the Commissioner is satisfied that section 22(1) of the Measure prohibits the disclosure of the requested information and she has therefore concluded that section 44(1)(a) of the FOIA is engaged. As section 44 is an absolute exemption there is no need to consider the public interest test.

## Right of appeal

---

20. Either party has the right to appeal against this decision notice to the First-tier Tribunal (Information Rights). Information about the appeals process may be obtained from:

First-tier Tribunal (Information Rights)  
GRC & GRP Tribunals,  
PO Box 9300,  
LEICESTER,  
LE1 8DJ

Tel: 0300 1234504

Fax: 0870 739 5836

Email: [GRC@hmcts.gsi.gov.uk](mailto:GRC@hmcts.gsi.gov.uk)

Website: [www.justice.gov.uk/tribunals/general-regulatory-chamber](http://www.justice.gov.uk/tribunals/general-regulatory-chamber)

21. If you wish to appeal against a decision notice, you can obtain information on how to appeal along with the relevant forms from the Information Tribunal website.
22. Any Notice of Appeal should be served on the Tribunal within 28 (calendar) days of the date on which this decision notice is sent.

Signed .....

**Andrew White**  
**Group Manager**  
**Information Commissioner's Office**  
**Wycliffe House**  
**Water Lane**  
**Wilmslow**  
**Cheshire**  
**SK9 5AF**

## **Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y Ddeddf)**

### **Hysbysiad penderfynu**

**Dyddiad:** 16 Chwefror 2017

**Yr Awdurdod Cyhoeddus:** Comisiynydd y Gymraeg

**Cyfeiriad:** Siambrau'r Farchnad

5-7 Heol Eglwys Fair

Caerdydd

CF10 1AT

#### **Y penderfyniad (gan gynnwys unrhyw gamau y gorchynnir eu cymryd)**

---

1. Gofynnodd yr achwynydd am gopi o ymateb Cyngor Caerdydd i'r ymgynghoriad ar y safonau Cymraeg drafft. Gwrthododd Comisiynydd y Gymraeg ('CyG') y cais o dan adran 44 o'r Ddeddf. Penderfyniad y Comisiynydd yw bod CyG wedi cymhwyso adran 44 o'r Ddeddf yn gywir. Nid yw'r Comisiynydd yn gofyn i unrhyw gamau gael eu cymryd.

#### **Y cais a'r ymateb**

---

2. Ar 11 Rhagfyr 2015 ysgrifennodd yr achwynydd at Gomisiynydd y Gymraeg gan ofyn am wybodaeth yn y termau a ganlyn:  
".....gopi o ymateb Cyngor Caerdydd i'ch ymgynghoriadau ar safonau iaith drafft".
3. Ymatebodd CyG ar 7 Ionawr 2016 gan ddweud bod yr wybodaeth y gofynnwyd amdani'n esempt o dan adran 44(1)(a) o'r Ddeddf, a hynny am fod datgelu'r wybodaeth wedi'i wahardd yn rhinwedd adran 22 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur').
4. Ysgrifennodd yr achwynydd at CyG ar 22 Chwefror 2016 gan ofyn am adolygiad mewnol o'i phenderfyniad i ddal yr wybodaeth y gofynnwyd amdani yn ôl.

5. Rhoddodd CyG ganlyniad ei hadolygiad mewnol ar 5 Mai 2016 gan gadarnhau ei phenderfyniad bod yr wybodaeth y gofynnwyd amdani'n esempt o dan adran 44 o'r Ddeddf.

## Rhychwant yr achos

---

6. Cysylltodd yr achwynydd â'r Comisiynydd ar 26 Medi 2016 i gwyno am y modd yr ymdriniwyd â'i gais am wybodaeth.
7. Ym marn y Comisiynydd, rhychwant ei hymchwiliad yw penderfynu a wnaeth CyG wrthod y cais mewn modd cywir o dan adran 44(1) o'r Ddeddf.

## Y rhesymau dros y penderfyniad

---

### Adran 44 – gwahardd datgelu

8. Mae adran 44(1)(a) yn darparu esemptiad rhag datgelu gwybodaeth o dan y Ddeddf ar gyfer gwybodaeth y gwaherddir ei datgelu o dan ddeddfwriaeth arall. I bob pwrpas, bwriad awduron y Ddeddf wrth gynnwys yr esemptiad oedd gwarchod rhag datgelu drwy amryfusedd wybodaeth yr oedd corff deddfwriaethol eisoes wedi penderfynu y dylai gael ei chadw'n gyfrinachol. Un pwynt hollbwysig yw bod adran 44 o'r Ddeddf yn esemptiad absoliwt, sy'n golygu nad yw'n dod o dan y prawf budd cyhoeddus, yn wahanol i nifer o esemptiadau eraill yn y Ddeddf.
9. Esboniodd CyG mai adran 22(1) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur')<sup>3</sup> yw'r ddeddfwriaeth y mae'n credu ei bod yn gwahardd datgelu'r wybodaeth.
10. Mae adran 22(1) o'r Mesur yn gwahardd CyG rhag rhyddhau gwybodaeth sydd wedi'i chael wrth arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau CyG, oni bai bod y datgeliad hwnnw wedi'i awdurdodi gan adran 22(2) o'r Mesur.
11. Dywedodd CyG nad yw'r term "wedi ei chael wrth arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau" CyG wedi'i ddiffinio yn y Mesur ond y bernir ei fod yn golygu bod adran 22(1) yn gymwys i wybodaeth y mae CyG

---

<sup>3</sup> <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted>

wedi ei derbyn yn unig, yn hytrach na gwybodaeth y mae CyG wedi ei chynhyrchu'n fewnol.

12. Mae adrannau 61 i 63 o'r Mesur yn awdurdodi CyG i gynnal ymchwiliadau safonau i berson neu i grŵp o bersonau (yn ddarostyngedig i amodau penodol). Mae'r cais yn yr achos hwn yn ymwneud ag ymchwiliad safonau a gynhaliwyd gan CyG rhwng Ionawr ac Ebrill 2014 ar 26 o sefydliadau, gan gynnwys Cyngor Caerdydd. Ymateb Cyngor Caerdydd i'r ymgynghoriad ar y safonau Cymraeg yw'r wybodaeth a gadwyd yn ôl. Yng ngoleuni hyn, mae CyG o'r farn bod yr wybodaeth o fewn rhychwant adran 22(1) o'r Mesur. Mae CyG wedi'i gwahardd felly rhag datgelu'r wybodaeth oni bai bod y datgeliad wedi'i awdurdodi o dan adran 22(2) o'r Mesur.
13. Nid yw CyG wedi dod o hyd i unrhyw swyddogaeth yn adran 22(2) a fyddai'n caniatáu datgelu ymateb Cyngor Caerdydd i'r ymgynghoriad ynghylch y safonau Cymraeg. Safbwynt CyG yw nad yw datgelu gwybodaeth o dan y Ddeddf yn un o'i swyddogaethau.
14. Mae'r achwynydd o'r farn bod CyG wedi dehongli adran 22(2) o'r Mesur yn rhy gul ac mae o'r farn bod gan CyG 'swyddogaeth' sydd wedi'u gosod arni gan y Ddeddf. Mae'n credu, felly, fod CyG yn gallu datgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gan y byddai'n cael ei datgelu "er mwyn arfer arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau" CyG ac felly y byddai adran 22(2)(a) yn caniatáu iddi gael ei datgelu.
15. Wrth ddod i benderfyniad yn yr achos hwn mae'r Comisiynydd wedi cymryd i ystyriaeth sylwadau CyG a'r darpariaethau perthnasol yn y Mesur. Wedi edrych ar yr wybodaeth a ddaliwyd yn ôl, mae'r Comisiynydd yn fodlon ei bod wedi'i sicrhau gan CyG wrth arfer un o'i swyddogaethau, sef yn benodol cynnal ymchwiliadau safonau.
16. Mae'r Comisiynydd wedi ystyried dadl yr achwynydd bod CyG wedi dehongli adran 22(2) o'r Mesur yn rhy gul a bod ymateb i geisiadau o dan y Ddeddf yn un o swyddogaethau CyG. Mae canllawiau'r Comisiynydd ar adran 44<sup>4</sup> o'r Ddeddf yn cadarnhau, os yw awdurdod cyhoeddus yn cymhwyso adran 44(1)(a) yn rhinwedd gwaharddiad statudol sy'n cyfeirio at ei swyddogaethau, fod rhaid i'r swyddogaethau hynny fod wedi'u rhoi i'r awdurdod hwnnw'n benodol, ac nid rhwymedigaethau cyffredinol ar bob awdurdod.

---

<sup>4</sup> <https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1186/section-44-prohibitions-on-disclosure.pdf>



17. Mae rhai gwaharddiadau statudol yn cynnwys 'pyrth' sy'n caniatáu i wybodaeth gael ei datgelu o dan amodau penodol. Gall yr amodau hyn, yn eu tro, gyfeirio at swyddogaethau'r awdurdod. Safbwynt y Comisiynydd yw nad yw datgelu gwybodaeth o dan y Ddeddf yn swyddogaeth sydd wedi'i hymddiried yn benodol mewn awdurdod cyhoeddus ond yn hytrach yn creu dyletswyddau cyffredinol i bob awdurdod cyhoeddus. Cafodd y pwynt hwn ei wneud yn glir yn achos *Slann v the Information Commissioner and the Financial Services Authority (EA/2005/0019, 11 Gorffennaf 2006)*. Yn yr achos hwnnw, dyfarnodd y Tribiwnlys fod datgelu gwybodaeth a oedd yn cael ei dal gan yr FSA wedi'i wahardd o dan adran 348 o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (FSMA), a bod yr wybodaeth yn esempt felly o dan adran 44(1)(a) o'r Ddeddf. Ym mharagraff 38 dywedodd y Tribiwnlys nad oedd adran 349 yn darparu porth ar gyfer datgelu gwybodaeth yn yr achos hwn am ei fod yn cytuno â'r FSA wrth iddyn nhw ddadlau:

"...section 349(5)(a) with its reference to public function is referring to and is directed to functions and powers conferred on the FSA by statute or by statutory instrument other than the FSMA and not legislation such as the 2000 Act [ie FOIA] to which other persons including the FSA are or might be subject..."

18. Mae'r Comisiynydd wedi ystyried y pyrth sy'n caniatáu i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gael ei datgelu yn yr achos hwn. Mae'r Comisiynydd yn fodlon nad yw datgelu yn unol ag ymateb i gais am wybodaeth o dan y Ddeddf yn un o'r rhesymau dros ddatgelu gwybodaeth y darperir ar eu cyfer yn isadrannau 22(a) i (h) o'r Mesur.
19. I grynhoi, mae'r Comisiynydd yn fodlon bod adran 22(1) o'r Mesur yn gwahardd datgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ac mae wedi dod i'r casgliad felly fod adran 44(1)(a) o'r Ddeddf yn berthnasol. Gan mai esemptiad absoliwt yw adran 44, does dim angen ystyried y prawf budd cyhoeddus.

## Yr hawl i apelio

---

20. Mae gan y naill barti a'r llall hawl i apelio yn erbyn yr hysbysiad penderfynu hwn i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth). Mae gwybodaeth am y broses apelio ar gael oddi wrth:

Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth)  
GRC & GRP Tribunals,  
PO Box 9300,  
LEICESTER,  
LE1 8DJ

Ffôn: 0300 1234504

Ffacs: 0870 739 5836

Ebost: [GRC@hmcts.gsi.gov.uk](mailto:GRC@hmcts.gsi.gov.uk)

Gwefan: [www.justice.gov.uk/tribunals/general-regulatory-chamber](http://www.justice.gov.uk/tribunals/general-regulatory-chamber)

21. Os hoffech apelio yn erbyn hysbysiad penderfynu, gallwch gael gwybodaeth am sut i apelio ynghyd â'r ffurflenni perthnasol ar wefan y Tribiwnlys Gwybodaeth.
22. Dylai unrhyw Hysbysiad Apelio gael ei gyflwyno i'r Tribiwnlys o fewn 28 diwrnod (calendr) ar ôl dyddiad anfon yr hysbysiad penderfynu hwn.

Llofnod .....

**Andrew White**  
**Rheolwr Grŵp**  
**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**  
**Wycliffe House**  
**Water Lane**  
**Wilmslow**  
**Cheshire**  
**SK9 5AF**